Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **27 Ebrill 2018** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Arol. Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries (MH) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 10/04/18 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2263** | **GB i roi gwybod i SCHTh am bresenoldeb Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Wendy Williams, yn un o sioeau teithiol y PG a'r DBG dros yr haf.** | **Cwblhawyd – Bydd Wendy Williams yn bresennol ar 3/5/18.** |
| **PB 2264** | **Dave Harris, Nichola Rance ac Irene Davies-Jones i gael cyfarfod yn y dyfodol i drafod data Gwasanaethau Dioddefwyr. DH SCHTh i geisio eglurhad mewn perthynas â chost Goleudy.** | **Yn parhau** |
| **PB 2265** | **IDJ a Nichola Rance HDP i gwrdd â Craig Templeton HDP yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2018 er mwyn trafod y ffigurau newydd o ran galw a dangosyddion perfformiad ar gyfer Goleudy.** | **Yn parhau** |
| **PB 2266** | **Y CHTh i gwrdd ag IDJ, Dave Harris a'r Adran TGCh mewn perthynas â dangosyddion perfformiad Goleudy.** | **Yn parhau** |
| **PB 2267** | **DH ac IDJ i drafod Holiadur Gadael Goleudy.** | **Yn parhau** |
| **PB 2268** | **Caryl Bond SCHTh i fod yn gysylltiedig â recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y gwasanaeth Goleudy.** | **Yn parhau** |
| **PB 2269** | **CHTh a Caryl Bond SCHTh i drafod ymgysylltiad gwirfoddolwyr mewn perthynas â gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.** | **Yn parhau** |
| **PB 2270** | **GB i roi dogfen Adran 22 i BP.** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2271** | **Yr Heddlu i sicrhau bod polisi gweithredol ar gyfer defnyddio'r bloc llety ac ymgysylltu ag Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod y llety'n cael ei ddefnyddio'n gywir.** | **Yn parhau** |
| **PB 2272** | **GB i ymateb i'r llythyr wrth Ben Summerskill mewn perthynas â data Stopio a Chwilio ar gyfer HDP.** | **Mae llythyr yn cael ei ddrafftio i'w gyflwyno i'r Grŵp Prif Swyddogion ac yna'r BP** |
| **PB 2273** | **Prif Swyddogion i ystyried safoni oriau agor gorsafoedd ar draws yr heddlu. Y mater o Oriau Agor Gorsafoedd i gael ei gyflwyno i'r BP ymhen 3 mis gyda golwg ar drafod gwaith gyda gwirfoddolwyr.** | **Yn parhau** |
| **PB 2274** | **GB i baratoi papur ar gyfer y BP mewn perthynas â Strategaeth Fflyd HDP.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 27/04/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 67** | **Y Bwrdd i argymell Baydale fel yr ymgeisydd o ddewis ar gyfer y Cytundeb TCC.** | **Caffael** |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

Rhennir cofnodion y cyfarfod blaenorol er mwyn gwirio cywirdeb, ac er mwyn ychwanegu trafodaeth Swyddogion Arfau Saethu Arbenigol Gwrthderfysgaeth yn y BP blaenorol am weithgareddau a ariennir gan wrthderfysgaeth o bosibl yn dod o dan y Cyd-uned Arfau Saethu a deall oblygiadau ariannol hyn.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Galw o ran Ymateb. Trafodwyd cael naratif o gwmpas y canrannau a ddarparwyd er mwyn deall ystyr y canrannau ar gynhyrchiant. Er enghraifft, y canran ar gyfer Powys oedd 54%, a chwestiynodd y PSA oblygiadau canrannau o'r fath. Dywedodd y PG y byddai cyflwyniad yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol yr Heddlu ar 1/5/2018 yn rhoi mwy o fanylion i'r PSA.

PB 2269 – Gwirfoddolwyr Goleudy – Holodd y PS pa un ai a fyddai'r gwirfoddolwyr yn gysylltiedig â gweithgareddau eraill SCHTh, neu a fyddent yn gwirfoddoli ar gyfer Goleudy yn unig. Awgrymodd y CHTh a'r PG y byddai'r garfan hon o wirfoddolwyr yn wirfoddolwyr Gwasanaethau Dioddefwyr arbenigol. Hysbysodd y PG y Bwrdd fod yr Uwch-arolygydd Robyn Mason yn gweithio gyda Gwasanaethau Dioddefwyr ar hyn o bryd, ac efallai y byddai'n bosibl i Heddlu

Dyfed-Powys (HDP) a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) gydweithio er mwyn recriwtio gwirfoddolwyr.

PB 2270 – Cytundeb Adran 22A – Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Cynllun Ariannol Cymru Gyfan. Roedd y Bwrdd yn cydnabod nad oedd SCHTh a Heddluoedd Cymru'n llwyr ymwybodol o'r cynlluniau ariannol, sy'n cynnwys cyfraniad o £6 miliwn tuag at y flwyddyn ariannol 2022/23. Byddai angen codi hyn mewn trafodaethau â'r 4 CHTh a'r 4 PG yn y dyfodol.

PB 2212 – Polisi Ystadau – Mae Andrew Rees wrthi'n llunio polisi. Holodd y CHTh pa un ai a oedd amserlen ar gyfer y prosiect llety. Nododd y PG y byddai'r Heddlu'n gosod amserlen ar gyfer y prosiect erbyn cyfarfod nesaf y BP.

PB 2274 - Oriau Agor Gorsafoedd - Holodd y CHTh pa un ai a oedd unrhyw faterion rhagweladwy gydag Unsain trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr y tu ôl i ddesgiau blaen mewn gorsafoedd heddlu. Dywedodd y PG nad oedd unrhyw broblemau. Dywedodd y CHTh bod angen elfen o gysondeb o ran oriau agor gorsafoedd, ac fe'i sicrhawyd gan y PG y byddai cysondeb.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Diweddarodd y PG y CHTh ynglŷn ag unigolyn coll ym Mhowys a gafodd ei ddarganfod wedi'i lofruddio yn fuan ar ôl derbyn adroddiad ei fod ar goll. Rhoddodd y PG ddiweddariad cryno ynglŷn â'r achos, gan gynnwys pryderon ynglŷn â'r ymateb i'r alwad gychwynnol i'r heddlu a defnydd HDP o gamerâu fideo a wisgir ar y corff. Dywedodd y PG nad oedd angen cynnwys y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu oherwydd roedd ansawdd yr ymchwiliad yn uchel.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r nifer isel canfyddedig o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â HDP pan mae swyddogion yn defnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff. Dywedodd y PG fod Polisi'r Heddlu'n nodi'n glir pryd y dylid troi'r camerâu ymlaen er nad yw swyddogion yn eu cadw wedi'u diffodd yn fwriadol. Mae darn o waith yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i ganfod sut y mae'r camerâu'n cael eu defnyddio gan swyddogion, a bydd swyddogion yn cael eu hatgoffa am yr angen ar gyfer defnyddio technoleg yn briodol yn ystod sioeau teithiol Prif Swyddogion sydd ar fin cael eu cynnal.

### Diweddariadau Sefydliadol

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynglŷn â'i sioeau teithiol ef a'r DBG o gwmpas gorsafoedd Heddlu Dyfed-Powys. Cafwyd trafodaeth ynghylch Ymgyrch Snap a'r pwnc misol ar gyfer mis Mai, sef Plismona'r Ffyrdd.

**Cam Gweithredu: Y Rhingyll Ian Price a'r Rhingyll Owen Dillon i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 22/5/2018 i roi cyflwyniad ar Ddiogelwch y Ffyrdd ac Ymgyrch Darwen.**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â dyrchafiadau diweddar o fewn HDP. Cydnabu'r PG bod y tri Phrif Swyddog presennol yn ddynion i gyd, fodd bynnag, dywedodd fod

swyddogion benywaidd ar lefelau swyddog a rhingyll yn elwa ar hyn o bryd o raglenni datblygu staff benywaidd, megis Springboard.

## 4. Diweddariad CHTh

### Lleol

Dywedodd y CHTh ei fod wedi mynd i gyfarfod gyda Phrif Weithredwr Ceredigion ar 11/4/2018 mewn perthynas â'r prosiect TCC ar draws yr ardal heddlu. Mae cyfarfodydd gyda Phrif Weithredwyr siroedd eraill wedi'u trefnu yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi cynnal Diwrnod Ymgysylltu Cymunedol yn y Gelli Gandryll a Chrucywel ar 13/4/2018 ac y byddai'n cynnal cyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn Ysgol Uwchradd Crucywel ar 8/5/2018.

Dywedodd y Comisiynydd y byddai ei daith feicio o gwmpas yr ardal heddlu'n cychwyn ar 30/4/2018 ac yn para 5 diwrnod. Byddai'r Comisiynydd a staff a swyddogion HDP yn beicio o gwmpas yr ardal heddlu er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen Dyfed-Powys Diogel a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â hi.

### Cenedlaethol

Diweddarodd y Comisiynydd y Bwrdd ynglŷn â'i gyfarfod â'r Comisiynydd Dros Gyfiawnder yng Nghaerdydd ar 16/4/2018. Dywedodd y Comisiynydd ei fod hefyd wedi mynd i lansiad Fframwaith ar gyfer cynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl o aildroseddu yn Stadiwm Swalec ar 19/4/2018.

## 5. Materion i'w Trafod

### a) Y Strategaeth Iaith Derfynol

Sefydlwyd y Strategaeth Iaith gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg sy'n nodi bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus ddatblygu polisi o'r fath. Cydnabu'r Bwrdd y Polisi a grëwyd gan Swyddog Iaith HDP. Dywedodd y CHTh y gallai Rheolwr Ymgysylltu yn SCHTh, sydd â phrofiad blaenorol o weithio yn y maes cyfieithu, feintoli model allanoli ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu o fewn HDP gan fod y galw ar gyfer y gwasanaeth yn gysylltiedig â'r Strategaeth Iaith. Nodwyd fod y galw ar gyfer gwasanaeth cyfieithu o fewn HDP wedi tyfu 79%. Nododd y Bwrdd fod dewisiadau wedi'u hystyried ar gyfer cynorthwyo'r adran â'r galw cynyddol, gan gynnwys recriwtio mwy o staff a chydweithio ag adran gyfieithu corff cyhoeddus arall.

### b) Gwobrwyo Cytundeb TCC

Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn diweddariadau gan y Prif Uwch-arolygydd Steve Cockwell a Marie McAvoy ynglŷn â gwobrwyo'r cytundeb TCC.

**Penderfyniad: Y Bwrdd i argymell Baydale fel yr ymgeisydd o ddewis ar gyfer y Cytundeb TCC.**

### c) Llythyr Aflonyddu Rhywiol

Trafododd y Bwrdd gysylltiad SCHTh a Heddlu De Cymru ag ymgyrch ar gyfer mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol, a pha un ai a hoffai HDP gymryd rhan. Dywedodd y PG y byddai'r Heddlu'n cael golwg manwl ar y llythyr yng nghyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion ac yn dod i benderfyniad wedi hynny.

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Dyfed-Powys Diogel**

Dywedodd y CHTh mai'r ymddiriedolwyr presennol ar gyfer yr elusen yw'r CHTh, y PG, y PSA a'r Cyfarwyddwr Cyllid (CC). Dywedodd y CHTh yr hoffai SCHTh pe bai ymddiriedolwyr yn rhedeg yr elusen er mwyn iddi gael ei rhedeg yn annibynnol o SCHTh a HDP. Ar hyn o bryd, mae £67,000 yng nghyfrif yr elusen, ac mae'r holl waith cyfansoddiadol o gwmpas yr elusen wedi'i wneud gan yr Ymgynghorydd Ariannu Allanol yn SCHTh.

Yn 2018/19, bydd y gronfa'n canolbwyntio ar ariannu grwpiau ieuenctid sy'n gysylltiedig â phobl o dan 25 oed, er enghraifft, yr Urdd a Chlybiau Ffermwyr Ifainc. Mae SCHTh yn ystyried rhoi pum lot o £1000 i bob sir yn ardal HDP. Bydd SCHTh yn lansio ei hymgyrch ar gyfer gwirfoddolwyr i gynorthwyo â'r gwaith o redeg yr elusen ochr yn ochr â thaith feicio CHTh a hefyd ar wefan SCHTh i'w hyrwyddo yn sioeau'r haf. Bydd SCHTh yn edrych ar agor rhai o'r prosesau ymgeisio ganol Mai tan ddiwedd Gorffennaf.

Holodd y PSA pa un ai a oedd angen i gytundeb fod mewn grym ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau nad yw'r swydd yn cael ei chamddefnyddio, yn arbennig yng ngoleuni sefydliadau cenedlaethol yn cael eu harchwilio gan y cyfryngau gan ddatgelu achosion o gamddefnyddio arian elusennol.

**b) Llythyr Nick Hurd AS**

Cytunodd y CHTh a'r PG y dylid anfon ymateb ar y cyd i lythyr gan y Gweinidog Plismona.

**c) Cytiau Cŵn**

Trafododd y Bwrdd y cwynion a wnaed gan breswylwyr Llangynnwr mewn perthynas ag Adran Gŵn HDP, a leolir yn y Pencadlys. Mae'r Prif Arolygydd Dros Dro Mike Melly wrthi'n gweithio ar ddatrysiad tymor hir a fyddai'n gweld y cŵn yn cael eu symud i safle o eiddo HDP ym Mhen-bre, ac mae'r CHTh wedi rhoi gwybod i breswylwyr lleol am hyn. Yn y tymor byr, gofynnwyd i swyddog diogelwch y Pencadlys beidio â mynd yn agos at y cŵn gyda'r nos er mwyn lleihau eu cyfarth, a bydd cŵn sy'n eiddo i swyddogion sydd ar wyliau blynyddol yn cael eu cadw yn Ne Cymru am £30. Dywedodd y PG mai'r gost amcangyfrifol o symud yr adran gŵn a'i hoffer o'r Pencadlys i Ben-bre yw £150,000.

**ch) Cyfarfod Treth Brentisiaeth**

Trafododd y PSA y broses gaffael FfCAP sydd wedi'i hatal ar hyn o bryd. Roedd y PSA ar ddeall bod penderfyniad mewn perthynas â'r dreth wedi'i wneud, fodd bynnag, nid oedd y cynigydd llwyddiannus wedi'i hysbysu o ganlyniad i

drafodaethau parhaus mewn perthynas â'r prosiect. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r mater a'r oblygiadau ar gyfer HDP pe bai'r dreth yn cael ei diddymu.

**ch) Datblygu Prosiect**

Cydnabu'r Bwrdd drafodaeth yn y Cyd-fwrdd Asedau bod prosiectau adeiladu cyfredol ar draws yr ardal heddlu'n ehangach na sbectrwm y bwrdd ystadau cyfredol, ac mae'n bosibl fod angen ei dîm prosiect ei hun arno. Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau a'r Prif Uwch-arolygydd Vicky Evans wedi bod yn trafod y mater gyda'i gilydd yn dilyn y Cyd-fwrdd Asedau.

Dywedodd y PSA hefyd bod y gyllideb sydd gan HDP yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwaith Ystadau yn unig, heb ddarpariaeth ar gyfer gofynion TG ehangach. Roedd y PSA yn aneglur ynghylch sut y cafodd HDP ei hun yn y sefyllfa honno, fodd bynnag, dywedodd y PG nad yw swyddogion HDP wedi'u hyfforddi i ysgrifennu achosion busnes, ac awgrymodd fod angen creu swydd yn y tymor byr.

**d) Y Panel Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y PS fod pum cwestiwn wedi'u cyflwyno gan y Panel Heddlu a Throseddu. Roedd pedwar cwestiwn yn ymwneud â materion gweithredol yn bennaf, a dywedodd y PG y byddai'n hapus i'w hateb.

**dd) Polisi Diswyddo Gwirfoddol**

Cwestiynodd y PSA sefyllfa'r polisi, a dywedodd y PG fod y DBG wedi cysylltu â Heddlu Gwent ynglŷn â'u hymagwedd tuag at y mater.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 27/04/18 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2275** | **Y Rhingyll Ian Price a'r Rhingyll Owen Dillon i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ar 22/5/2018 i roi cyflwyniad ar Ddiogelwch y Ffyrdd ac Ymgyrch Darwen.** | **GB** |
| **PB 2276** | **Anfon llythyr at Arolygydd Heddluoedd EM Wendy Williams i ddiolch iddi ac ymddiheuro nad yw'r CHTh yn medru cwrdd â hi ar 3/5/2018. Dylai'r llythyr ddweud bod Sarah Cooper, Swyddog Cyswllt AHEM, yn ymweld â Hwlffordd ar 15/5/2018.** | **MH** |
| **PB 2277** | **Drafftio ymateb ar y cyd ar gyfer y Gweinidogion Plismona.** | **PM CB** |